# Papur Testun 18B: Adendwm i Papur Testun 18A

18B





CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn**

**Awst 2016**

**Papur Testun 18B**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad o beth sydd wedi digwydd ers cyhoeddi Papur Testun 18A. Felly mae angen ei ddarllen ar y cyd efo Papur Testun 18A ac fel atodiad iddo.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn 2016 wedi cael ei gyflwyno i'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru ac yn aros i gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog – rhagwelir bydd hynny'n digwydd ym Medi 2016. Cafodd yr Asesiad a gyflwynwyd newidiadau er mwyn cymryd i ystyriaeth gwestiynau a godwyd gan Is-adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru.

2.2 Ar ôl ymgymryd â'r Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn 2016 (yr 'Asesiad Anghenion Llety'), roedd gwell dealltwriaeth o ran nifer y lleiniau roedd eu hangen yn ystod Cyfnod y Cynllun. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi crynodeb o'r angen:-

| **GTANA 2016** | **Lleiniau preswyl parhaol** | **Lleiniau tramwy** | **Lleiniau aros dros dro** |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 4 | 0 | 1 Safle yng Nghaergybi<br>(hyd at 12 carafán – 6 llain).<br><br>Canol yr Ynys<br>(hyd at 15 carafán – 8 llain). |
| **Gwynedd (Sir)** | 11 | 0 | 1 Safle yng Nghaernarfon<br>(hyd at 9 carafán – 5 llain). |

Noder: 2 garafán deithiol i bob llain.

2.3 Mae'r Cynllun Adnau, yn cynnwys Newidiad â Ffocws NF 72, yn dynodi tir sy'n ffurfio estyniad i'r safle presennol ar stad ddiwydiannol Llandygai, Bangor, lle mae Sipsiwn yn byw, i ateb yr angen a gydnabuwyd i gael lleiniau preswyl ychwanegol yng Ngwynedd yn ystod cyfnod y Cynllun.

2.4 Pan gyhoeddwyd Papur Testun 18A yn Chwefror 2016, roedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi dweud wrth yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd nad oedd mewn sefyllfa i bennu hoff safleoedd ar gyfer lleiniau parhaol a thros dro i Sipsiwn a Theithwyr ar yr Ynys ar gyfer ateb yr anghenion a welwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety 2016. Yn ogystal, nid oedd Cyngor Gwynedd yn gallu pennu hoff safle ar gyfer lle aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr oedd yn dymuno aros am gyfnodau byr yng Nghaernarfon, i ateb yr angen a welwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety 2016.

2.5 Mae'r Rhannau a ganlyn yn rhoi amlinelliad o'r camau gymerwyd i ateb yr anghenion a welwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety 2016 a'r prinder a gydnabyddir o lefydd aros dros dro yn y Cynllun Adnau a gyflwynwyd, yn cynnwys Newid â Ffocws NF72.

**3.0 Safleoedd Parhaol – Ynys Môn.**

3.1 Gwnaeth Cyngor Sir Ynys Môn waith ymgynghori cyhoeddus ar safleoedd parhaol i Sipsiwn a Theithwyr, rhwng 11 Chwefror 2016 ac 11 Mawrth 2016, i gynorthwyo i gael gwybodaeth ar gyfer argymhellion i Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Roedd yr Ymgynghori'n gyfle i'r cyhoedd a phartïon efo diddordeb wneud sylwadau am y tri safle posibl y credwyd eu bod yn addas i ateb yr anghenion ar gyfer safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr, fel y gwelwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety 2016. Cafodd y Cyngor Hwylusydd Annibynnol i ymgysylltu efo'r Teithwyr Oes Newydd oedd yn byw ar y safle a oddefir yn y gilfan ar Lôn Pentraeth, Porthaethwy, i gael gwell dealltwriaeth o'u barn a'u dyheadau.

3.2 Mae modd gweld y dogfennau ymgynghori cyhoeddus trwy glicio ar y linc a ganlyn:-

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriadau-blaenorol/ymgynghoriad-ar-safleoedd-i-sipsiwn-a-theithwyr/128068.article?redirect=false

3.3 Cafodd yr Adroddiad Ymgynghori am safleoedd preswyl parhaol posibl ei ystyried gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 31 Mai 2016. Mae prif gorff yr adroddiad, heb ei atodiadau, i'w weld yn **Atodiad 1**. Gellir gweld yr adroddiad llawn a'r cofnodion yn:-

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgAi.aspx?ID=7088&LLL=1

3.4 Byddwch yn sylwi bod swyddogion wedi argymell dynodi safle ger Penhesgyn, Penmynydd yn y Cynllun fel safle preswyl parhaol, am y rhesymau sydd yn yr adroddiad. Mae cynllun o'r safle yn **Atodiad 2** o'r Cynllun (Atodiad 1, Safle Diwygiedig 3 yn yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith). Bydd angen i Gyngor Sir Ynys Môn gael meddiant o un neu ddau o'r caeau sydd wrth ymyl y briffordd, er mwyn darparu safle preswyl awdurdodedig addas, efo mynediad addas i gerbydau er mwyn ateb gofynion priffyrdd. Trwy gael meddiant ar y ddau gae yma, gallai'r Cyngor wedyn ystyried lledu'r ffordd a gwelliannau eraill i'r briffordd. Bydd union derfynau'r tir i gael ei ddatblygu'n cael eu pennu ymhellach ymlaen. Nodwch os gwelwch yn dda mai dim ond rhan o'r tir sydd i'w weld ar y cynllun yn **Atodiad 2** fydd ei angen i ddarparu ar gyfer y teithwyr sy'n byw ar hyn o bryd yn y gilfan ar Lôn Pentraeth.

3.5 Dyma argymhellion yr Adroddiad:-

1. Dewis y tir ym Mhenhesgyn ger Penmynydd fel dyraniad posibl i ateb anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, yn amodol ar ganlyniad ymchwiliadau pellach i gadarnhau bod y safle'n addas o ran diogelwch y briffordd a'r effaith ar iechyd, a'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

2. Ymgysylltu ymhellach efo trigolion y gwersyll heb awdurdod yn y gilfan ar yr A5025, i gael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion ac egluro gofynion y Cyngor, gan ddefnyddio hwylusydd annibynnol i hwyluso hyn;

3. Comisiynu ymgynghorydd priodol i baratoi dyluniad y safle a chyflwyno'r cais cynllunio fydd ei angen; bod yr ymgynghorydd a'r hwylusydd annibynnol i gael

trigolion y gwersyll heb awdurdod i gymryd rhan mewn dylunio a rheoli'r safle arfaethedig newydd;

4. Ymgysylltu efo cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol ar y cynigion i ddatblygu'r safle, efo'r nod o adeiladu cydlyniad cymunedol.

5. Bydd y Cyngor Sir yn trafod efo perchnogion y ddau gae sydd wedi'u marcio ar y Cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad (Atodiad 1 yn yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, dyddiedig 31 Mai 2016), efo golwg ar eu prynu.

3.6 Bydd Adroddiad Atodiad Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n cyfeirio at y safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (parhaol a dros dro) yn cael ei gyflwyno i'r Arolygydd i'w ystyried yn Awst 2016 (gweler rhan 6 isod).

## 4.0 Llefydd Aros Dros Dro – Ynys Môn

4.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar lefydd aros dros dro posibl i Sipsiwn a Theithwyr, rhwng 11 Chwefror 2016 ac 11 Mawrth 2016, ar yr un pryd â'r ymgynghori ar safleoedd parhaol posibl. Roedd yr Ymgynghori'n gyfle i'r cyhoedd a phartïon â diddordeb wneud sylwadau am y tri safle posibl y credwyd eu bod yn addas i ateb yr anghenion ar gyfer safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr, fel y dangoswyd yn yr Asesiad Anghenion Llety 2016.

4.2 Mae modd gweld y dogfennau ymgynghori cyhoeddus trwy ddilyn y linc yma:-

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriadau-blaenorol/ymgynghoriad-ar-safleoedd-i-sipsiwn-a-theithwyr/128068.article?redirect=false

4.3 Mae Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried adroddiadau ar yr ymgynghori cyhoeddus, ar 31 Mai 2016. Dyma linc i'r adroddiadau:-

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3048&Ver=4&LLL=1

4.4 Roedd yr adroddiadau'n dod i'r casgliad nad oedd y safleoedd aros dros dro posibl y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiadau yn addas, am y rhesymau a eglurwyd yn yr adroddiadau.

4.5 Yn unol efo hynny, roedd argymhelliad i wneud gwaith pellach i geisio cael 2 safle aros dros dro (un yn Ardal Caergybi ac un yn agosach at ganol yr Ynys, yn agos at yr A55 a'r A5), gan edrych ar safleoedd oedd yn eiddo cyhoeddus a phreifat. Roedd y gwaith yn golygu sgorio'r safleoedd yn erbyn y matrics sgorio, ar ôl gwneud newidiadau i'r matrics hwnnw, gan ofyn i gyrff statudol a pherchnogion tir perthnasol, ac ymgynghori cyhoeddus pellach.

4.6 Digwyddodd ail ymgynghori cyhoeddus, ar lefydd aros dros dro ym Môn i Sipsiwn, rhwng 2 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2016. Mae'r dogfennau ymgynghori i'w gweld trwy ddilyn y linc yma:-

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriadau-blaenorol/ymgynghoriad-ar-fannau-stopio-dros-dro-yn-ynys-mn-ar-gyfer-sipsiwn-a-theithwyr/128871.article?redirect=false

4.7 Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r gwaith ymgynghori a'r asesiad safle, bu Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn ystyried dau adroddiad ar 25 Gorffennaf 2016. Mae corff yr adroddiadau yn **Atodiad 3**, a'r Adroddiadau efo'r atodiadau iddynt ar gael i'w gweld yn:-

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3071&LLL=1

4.8 Roedd yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, Eitem 2, yn ystyried Lle Aros Dros Dro ar gyfer canol yr Ynys. **Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:-**

1. Dylai'r Cyngor Sir gynnal ymchwiliadau pellach i Safle 1, sef y llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star i gadarnhau a ydyw'n addas ai peidio ac ar gyfer asesu ymhellach unrhyw risgiau i ddiogelwch neu risgiau technegol ar y safle ac ystyried a fyddai modd dylunio'r safle er mwyn datrys y rhain.

2. Penodi ymgynghorydd priodol i baratoi dyluniad ar gyfer y safle ac i gyflwyno'r Cais Cynllunio angenrheidiol ar gyfer y safle a ddewisir;

3. Na ddylid parhau ar hyn o bryd â Safle 2, sef y llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen o ganlyniad i bryderon gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd o ran yr effaith ar heneb ac ardal o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol ynghyd â'r effaith bosib ar y Parc Gwyddoniaeth sy'n cael ei ddatblygu yn Y Gaerwen;

4. Na ddylid symud ymlaen gyda safle 3, ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran, oherwydd materion diogelwch ffyrdd a nodwyd gan yr angenrheidrwydd i greu mynedfa newydd i'r safle oddi ar yr A5;

5. Dylai'r Cyngor Sir barhau i ddiwallu ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y trigolion i deimlo'n ddiogel ac i fod yn rhan o ymgynghoriad ar faterion datblygu a'r gydnabyddiaeth fod gan y Cyngor gyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

4.9 Fe gytunodd y Pwyllgor Gwaith i dderbyn argymhellion yr adroddiad ar Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Mannau Aros Dros Dro, ac na ddylid symud ymlaen efo naill na'r llall o'r ddau safle oedd yn yr ymgynghoriad, na'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith hefyd bod angen gwaith pellach i chwilio am safleoedd addas posibl i ateb yr anghenion am le aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Caergybi. (**Gweler Atodiad 3**, Eitem 3). Mae modd gweld yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cofnodion yn:-

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3071&LLL=1

## 5.0 Safle Dros Dro – Gwynedd

5.1 Fel yr amlinellwyd ym Mhapur Testun 18A (PT.031) mae Cyngor Gwynedd wedi ystyried tri safle posibl yng Nghaernarfon i ateb yr angen a welwyd yn yr Asesiad Drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd (DC.024) ar gyfer safle aros dros dro.

5.2 Mae'r tir tu ôl i Adeilad y Llys yn eiddo i'r Cyngor ond gan ei fod yn agos at eiddo preswyl a bod diffyg seilwaith ar y safle, ni chafodd ei ystyried i fod yn lleoliad addas.

5.3 Mae'r tir gyferbyn â Stad Ddiwydiannol Peblig yn dir preifat, ac mae'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth yn y cynllun datblygu presennol a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n cael ei greu, a hefyd mae diffyg seilwaith addas ar y safle. Yng ngoleuni hyn, ni chafodd y safle ei ystyried i fod yn lleoliad addas.

5.4 Y patrwm hanesyddol yn y dref ydi i'r maes parcio Shell gael ei ddefnyddio am gyfnodau byr wrth i sipsiwn a theithwyr basio trwy'r ardal. Yng ngoleuni hyn, a bod y safle yn eiddo i'r Cyngor, ei fod yn agos at wasanaethau a chyfleusterau ac wedi'i wahanu'n ffisegol oddi wrth eiddo preswyl, dyma'r safle y dylid ei ddynodi fel safle aros dros dro.

## 6.0 Adroddiad Atodiad ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

6.1 Fe ymgymerwyd ag arfarniad annibynnol o'r dewisiadau safle dan sylw, yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd llawn sydd yn Rhan 2, Tabl 2.6 o'r Adroddiad Cynaliadwyedd Adnau (CDLL.007) ac yn defnyddio'r allwedd a ddangosir yn Nhabl 2.5 o'r Adroddiad hwnnw. Fel gyda'r gwaith cynharach ar Arfarniad o Gynaliadwyedd, (gweler Paragraffau 2.15 - 2.19 o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Adnau (CDLL.007)) gosodwyd y canfyddiadau ar gyfer pob un o'r dewisiadau safle newydd mewn matricsau manwl - rhoddwyd tystiolaeth lle'r oedd ar gael neu'n berthnasol, a darparwyd sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer lliniaru neu wella lle'r oedd hynny'n berthnasol. Cafodd natur yr effeithiau cynaliadwyedd allweddol (yn cynnwys cadarnhaol/negyddol, hyd amser, parhaol/dros dro, eilaidd, cronnol a synergeddol) eu disgrifio, a hefyd unrhyw ansicrwydd a nodwyd.

6.2 Cafodd pob un o'r dewisiadau safle posibl a ganfuwyd gan y Cynghorau eu sgrinio trwy'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn ystyried a oedd posibilrwydd o gael effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Mae crynodeb o'r canfyddiadau isod:

- ***Dewisiadau Safle Parhaol Ynys Môn –*** Er nad ydi pellter ynddo ei hunan yn rhoi arweiniad terfynol o ran tebygolrwydd effaith neu ba mor ddifrifol fyddai'r effaith, o weld pa mor bell ydi'r safleoedd oddi wrth unrhyw safleoedd Ewropeaidd a maint/capasiti'r dewisiadau safle, daethpwyd i'r casgliad bod datblygiad ar y safleoedd hyn yn annhebyg o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad.

- ***Dewisiadau Safle Dros Dro Ynys Môn –*** Er nad ydi pellter ynddo ei hunan yn rhoi arweiniad terfynol o ran tebygolrwydd effaith neu ba mor ddifrifol fyddai'r effaith, o weld pa mor bell ydi'r safleoedd oddi wrth unrhyw safleoedd Ewropeaidd a maint/capasiti'r dewisiadau safle, daethpwyd i'r casgliad bod datblygiad ar y safleoedd hyn yn annhebyg o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad.

- ***Dewisiadau Safle Dros Dro Gwynedd –*** Gwelwyd yn ystod y sgrinio bod Safle B o fewn 100m i Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy. Felly ystyriwyd y gallai datblygiad gael effeithiau sylweddol. Fodd bynnag, o gofio'r math o ddatblygiad a gynigiwyd a chapasiti'r safle, mae'n annhebyg y byddai unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Lliniaru –

dylai'r lliniaru a ddarperir trwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd ac ar gael ar lefel project sicrhau nad oes unrhyw effeithiau gweddillol sylweddol.

6.3 Bydd yr adroddiadau atodiad yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd i'w hystyried yn Awst 2016.

## 7.0 Y Ffordd Ymlaen

7.1 Mae Aelodau'r Cynghorau wedi cael hyfforddiant ac wedi cael eu briffio am ba mor bwysig ydi pennu safleoedd penodol i ateb anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ardal y Cynllun, a chredir bod y gwaith mae'r ddau Gyngor wedi ei wneud i ganfod safleoedd i ateb yr angen am safleoedd parhaol, a'r gwaith sy'n digwydd rŵan, yn dangos ymrwymiad y Cynghorau i'r broses hon.

7.2 Mae'n cael ei gredu bod y Cynghorau wedi symud ymlaen yn sylweddol ers adeg cyhoeddi Papur Testun 18A. Mae safle wedi cael ei ganfod ym Mhenhesgyn, Penmynydd i ateb anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, yn amodol ar ganlyniad ymchwiliadau pellach i gadarnhau bod y safle'n addas o ran diogelwch y briffordd ac asesiad effaith iechyd. Mae'r ymchwiliadau pellach hyn yn mynd ymlaen, efo golwg ar gyflwyno'r cais cynllunio sydd ei angen i'r Cyngor. Mae dau le aros dros dro posibl wedi cael eu canfod, un rhwng Croesffordd Star a Llanfairpwll ym Môn ac un arall yng Nghaernarfon. Mae wedi cael ei gydnabod bod angen asesiadau pellach o unrhyw risgiau diogelwch neu risgiau technegol efo'r datblygiad arfaethedig yn Star, ynghyd ag oes modd ateb y materion hyn yn foddhaol er mwyn cael caniatâd cynllunio, trwy ddefnyddio mesurau dylunio a rheoli er mwyn lliniaru.

7.3 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu y dylid gwneud gwaith pellach i ganfod safleoedd addas posibl i ateb yr anghenion am le aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Caergybi, fel y gwelwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety 2016.

7.4 Mae'r broses o ganfod safleoedd posibl i Sipsiwn a Theithwyr wedi bod yn fater dadleuol iawn ar adegau. Er mwyn lleddfu pryderon ac ofnau'r cyhoedd, mae'n cael ei ystyried yn bwysig i barhau i ymgysylltu efo cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol o ran y cynigion i ddatblygu safleoedd addas i Sipsiwn a Theithwyr, efo'r nod o wella cydlyniad cymunedol.

**Atodiad 1**

Eitem 12. Adroddiad - Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn – Safle Parhaol yn Ardal Y Fenai. Pwyllgor Gwaith Ynys Môn, 31 Mai 2016

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 31 Mai 2016 |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn – Safle Parhaol yn Ardal Y Fenai |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Mike Evans, Uwch Swyddog Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd<br>01286 679825<br>mikeevans@gwynedd.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Y Cynghorwyr:<br>Alwyn Rowlands<br>Carwyn Jones<br>Lewis Davies<br>Alun Mummery<br>Meirion Jones<br>Jim Evans |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**Argymhellion:** ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a'r ymarferion asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir fel a ganlyn:

1. Safle 3 diwygiedig (fel y nodir yn Atodiad 1), Tir ym Mhenhesgyn ger Penmynydd yn cael ei ddewis ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel safle posibl i gwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fel y cânt eu nodi yn yr Asesiad diweddaraf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn yn amodol ar ganlyniadau'r ymchwiliadau pellach a amlinellir isod.

2. Bydd CSYM yn gwneud gwaith ymchwil pellach i gadarnhau addasrwydd ac ymarferoldeb y safle uchod o safbwynt diogelwch y ffordd ac effaith ar iechyd. Bydd CSYM yn parhau i ymgysylltu gyda thrigolion y gwersyll anawdurdodedig yn y gilfan ar yr A5025 i gael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dymuniadau ac i egluro gofynion y Cyngor. Bydd y Cyngor yn defnyddio hwylusydd annibynnol sydd â phrofiad o ddelio gyda materion yn ymwneud â sipsiwn a theithwyr i gynorthwyo gyda hyn.

3. Bydd CSYM yn penodi ymgynghorydd annibynnol i baratoi dyluniad y safle ac i gyflwyno'r cais cynllunio angenrheidiol. Bydd raid i'r ymgynghorydd a benodir a'r hwylusydd annibynnol ymgynghori gyda thrigolion y gwersylloedd anawdurdodedig mewn perthynas â dyluniad a dull rheoli'r safle newydd arfaethedig.

4. Bydd CSYM yn ymgysylltu gyda chymunedau lleol a chydranddeiliaid allweddol ynghylch cynigion i ddatblygu'r safle gyda'r nod o ddatblygu cydlyniant cymunedol.

5. Bydd CSYM yn cynnal trafodaethau gyda pherchennog y ddau gae (wedi eu marcio ar y cynllun (Atodiad 1) gyda golwg ar eu prynu.

**Rhesymau am bob Argymhelliad**

1. Mae Swyddogion wedi asesu nifer o safleoedd eraill ac wedi cymryd Canllawiau Llywodraeth Cymru i ystyriaeth wrth ddatblygu ei fethodoleg i asesu safleoedd addas posibl. Ystyriwyd mai'r tri safle yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn ddiweddar oedd â'r potensial mwyaf o ran eu datblygu fel Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Mae ffactorau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol mewn perthynas â'r tri safle ac mae angen eu cymryd i ystyriaeth. Wedi ystyried manteision ac anfanteision pob safle, ac ar ôl pwyso a mesur, ystyrir bod Safle 3 yn haeddu cael ei ddewis. Am y rhesymau a eglurir yn yr adroddiad hwn, cafodd Safle 3 ei ddewis fel tir posibl ar gyfer safle preswyl parhaol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

   Nid ystyrir bod Mân-ddaliad Gaerwen yn addas oherwydd y gost uchel sy'n gysylltiedig â darparu cyflenwad dŵr fel y nodir yn ymateb Dŵr Cymru. (Atodiad 2) Nid ystyrir bod y gilfan ar yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth yn addas oherwydd ei bod yn agos i lôn dosbarth A brysur, petai plant ar y safle, fel yr amlygwyd gan Hedlu Gogledd Cymru. Mae trigolion lleol wedi mynegi pryderon hefyd ynglŷn â'r risg o ddamweiniau ffordd difrifol oherwydd bod cŵn ar y safle a gwelwyd mwg yn codi o danau ar y safle'n ddiweddar ac yn cael ei chwythu ar draws yr A5025 gan gyfynu gweledigaeth.

2. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil mewn perthynas â Safle 3 i roi sylw i rai o'r materion a godwyd yn y sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â

materion a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch ar y ffordd fawr ac ar Iechyd, gan gynnwys ansawdd aer. Awgryma tystiolaeth y gellir datrys y materion hyn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ymgeisio am ganiatâd cynllunio.

3. Er gwaethaf ymdrechion sylweddol, mae swyddogion CSYM wedi cael anhawster ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r Teithwyr yr Oes Newydd sy'n byw yn y gwersyll anawdurdodedig a oddefir rhwng Porthaethwy a Phentraeth. Mae defnyddio hwylusydd annibynnol gyda phrofiad o ddelio â grwpiau anodd eu cyrraedd wedi cynorthwyo'r Cyngor i ymgysylltu gyda'r Teithwyr yr Oes Newydd yn ystod y broses ymgynghori, ac wedi galluogi'r trigolion i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio hwylusydd annibynnol pan fo angen i gynnal cyfarfod pellach i siarad am y broses o ddarparu safle ar gyfer Teithwyr.

4. Paratoi Ymgynghorydd addas i baratoi a chyflwyno'r cais cynllunio angenrhediol, gyda mewnbwn gan y Teithwyr Newydd. Dylai cymryd y sylwadau a wneir gan y Teithwyr Newydd i ystyriaeth a'u cynnwys mewn trafodaethau ynghylch dyluniad y safle arfaethedig a'r modd y bwriedir ei reoli helpu i sicrhau y byddant yn ei dderbyn.

5. Er mwyn cefnogi cydlyniant cymunedol ac i barhau i roi gwybod iddynt am ddatblygiadau, bydd CSYM yn ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol yn y broses o ddatblygu safle awdurdodedig.

6. Efallai y bydd angen i CSYM gael un neu'r ddau o'r caeau y cyfeiriwyd atynt, er mwyn darparu safle preswyl awdurdodedig addas gyda mynedfa addas i gerbydau a fyddai'n cwrdd â gofynion priffyrdd. Byddai cael y ddau gae yn golygu y gallai'r Cyngor ystyried lledu'r ffordd a gwneud gwelliannau priffordd eraill. Bydd union ffiniau'r tir i'w ddatblygu yn cael eu penderfynu yn nes ymlaen. Noder os gwelwch yn dda na fydd yr angen yr holl dir a ddangosir ar y cynllun sydd ynghlwm ar gyfer y Teithwyr sy'n byw yn y gilfan ar Ffordd Pentraeth ar hyn o bryd.

**Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn cryfhau'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn darparu ar gyfer digon o safleoedd priodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Yn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nodwyd bod angen safleoedd parhaol a dros dro yn y ddwy ardal awdurdod lleol a nodwyd. Yn Asesiad 2016, nodwyd bod angen

- safle preswyl parhaol i gwrdd ag anghenion Teithwyr Newydd yn codi o'r safle anawdurdodedig a oddefir yn Ffordd Pentraeth (pedair llain).

Er bod effeithiau gweledol a mwynderol ar gymunedau ac eiddo cyfagos yn faterion pwysig, mae polisïau cynllunio ar gael ar hyn o bryd i warchod rhag effeithiau sy'n annerbyniol o andwyol. Derbynnir y gall dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr achosi cynnwrf yn ystod y broses gynllunio. Fodd bynnag, rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio er budd ehangach y cyhoedd ac mewn modd rhesymegol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth, lle mae'r materion hyn yn cael eu cydbwyso yn erbyn ffactorau eraill. Cyn y gellir datblygu safle awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr, rhaid cael caniatâd cynllunio. Bydd y cam hwn yn y broses yn darparu manylion a sicrwydd ynghylch materion megis mynedfa i gerbydau, gosodiad a dyluniad y safle a thirlunio. Felly, bydd cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y cais cynllunio cyn y gwneir penderfyniad arno.

**Math a maint y safleoedd y mae angen eu darparu**

Yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016, cafwyd tystiolaeth o'r angen i ddarparu safle preswyl parhaol i gwrdd ag anghenion Teithwyr Newydd sy'n byw ar y safle anawdurdodedig a oddefir yn Ffordd Pentraeth (pedair llain ).

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr bob 5 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn anodd rhagweld yn gywir beth fydd yr anghenion dros gyfnod hwy.

Ym marn y swyddogion, rhoddwyd sylw dyledus i gyngor a chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran y dull o adnabod safleoedd parhaol posibl i Sipsiwn a Theithwyr.

**Cyfiawnhad ar gyfer dewis Safle 3 diwygiedig i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Cafodd y safleoedd canlynol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel safleoedd posibl ar gyfer y rhestr fer

Safle 1. Y gwersyll presennol yn y gilfan ar yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth
Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen
Safle 3. Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd

**Manteision ac Anfanteision**

Mae'r tablau isod yn nodi ar ffurf bwledi, fanteision ac anfanteision canfyddedig datblygu safle parhaol awdurdodedig ar bob un o'r tri safle.

Safle 1. Y Gwersyll presennol yn y gilfan ar yrA5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Byddai defnyddio'r safle hwn yn cyd-fynd gyda dymuniad y trigolion presennol i aros yno<br>• Mae cyflenwad dŵr i'r safle eisoes ar gael<br>• Dim llawer o dai'n agos at y safle<br>• Mae'r safle cyfredol yn cael ei sgrinio'n weddol yn yr haf pan mae'r coed yn eu dail<br>• Mae'r safle ar lwybr bws<br>• Siopau a gwasanaethau ar gael ym Mhorthaethwy | • Yn agos at ffordd brysur iawn<br>• Angen gwella'r fynedfa i gerbydau<br>• Dim palmantau gerllaw<br>• Byddai ailddatblygu'r safle a thorri mwy o goed yn gwneud y safle'n fwy amlwg<br>• Gall gwaith ailddatblygu a thorri coed fod yn niweidiol i faterion cadwraeth<br>• Ar ffordd sy'n boblogiadd gyda thwristiaid<br>• Dim llawer o sgôp i ehangu'r safle petai angen lleiniau ychwanegol neu le chwarae i blant yn y dyfodol<br>• Mae rhwystr ar hyn o bryd i hawliau tramwy preifat<br>• Am resymau iechyd a diogelwch, efallai y byddai angen symud y trigolion a'u heiddo am gyfnod dros dro yn ystod y gwaith o ailddatblygu'r safle |

- **Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Dim llawer o dai'n agos at y safle<br>• Yn agos at siopau a chyfleusterau cymunedol yng Ngaerwen<br>• Gallai'r teithwyr aros ar y safle cyfredol hyd nes byddai'r un newydd yn barod<br>• Digon o dir ar gael i greu amgylchedd da ar gyfer Teithwyr, gan gynnwys lleiniau ychwanegol, lle ar gyfer plannu ffrwythau a llysiau a lle chwarae i blant petai ei angen<br>• Yn ymyl llwybr bysus ar yr A5 | • Dim cyflenwad dwr ar hyn o bryd. Byddai'n costio cryn dipyn i gysylltu i gyflenwad dŵr hwylus<br>• Y canfyddiad y byddai'n gwneud y Parc Gwyddoniaeth arfaethedig yn llai atyniadol<br>• Byddai creu mynedfa newydd i gerbydau i gydymffurfio gyda gofynion priffyrdd yn arwain at golli'r gwrychyn presennol<br>• Efallai y byddai angen palmantau ychwanegol i wella hwylustod i gerddwyr<br>• Risgiau i gerddwyr sy'n croesi'r ffyrdd mynediad i ac o'r A55<br>• Y safle mewn lleoliad agored. Ychydig iawn o gysgod rhag y gwynt |

- **Safle 3 Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Dim llawer o dai'n agos at y safle<br>• Llai o draffig yn pasio'r safle hwn na'r un cyfredol<br>• Gallai'r teithwyr aros ar y safle cyfredol hyd nes byddai'r un newydd yn barod<br>• Digon o dir ar gael i greu amgylchedd da ar gyfer Teithwyr, gan gynnwys lleiniau ychwanegol, lle ar gyfer plannu ffrwythau a | • Byddai'n golygu colli tir glas<br>• Byddai creu mynedfa newydd i gerbydau i gydymffurfio gyda gofynion priffyrdd yn arwain at golli'r gwrychyn presennol<br>• Byddai angen prynu tir preifat i ddarparu mynedfa ddiogel i gerbydau i'r safle<br>• Gallai'r ffaith bod Canolfan Ailgylchu'r Cyngor yn agos at y |

| | |
|---|---|
| choed a lle chwarae i blant petai ei angen<br>• Byddai prynu tir preifat i hwyluso mynediad i gerbydau yn (i) creu mwy o gyfle i ledu a gwella'r briffordd gyfagos a/neu (ii) yn darparu lleoliad arall ar gyfer y lleiniau y bydd eu hangen | safle effeithio ar fwynhad y trigolion o'r safle hwn<br>• Yn bellach o'r siopau |

**Casgliadau**

Fel y nodir, mae gan bob un o'r safleoedd uchod eu cryfderau a'u gwendidau. Wedi ystyried y ffactorau hyn ynghyd â'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, ystyrir mai argaeledd cyflenwad dŵr a materion sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd yw'r prif ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad.

O ran cyflenwad dŵr, mae un ar gael yn Safle 1. Gan ystyried sylwadau a gafwyd gan Dŵr Cymru, Atodiad 2, mae'n ymddangos bod darparu dŵr o'r prif gyflenwad i Safle 2 yn debygol o fod yn gostus oherwydd bod y prif gyflenwad ryw 700m i'r gogledd o'r safle. Er bod pibell i'r prif gyflenwad yn nes i gyfeiriad y de o'r A55, byddai'n broblemus darparu cyflenwad dros yr A55. Ymddengys y byddai cost uchel darparu cysylltiad dŵr o'r prif gyflenwad i'r safle hwn yn golygu y byddai'n cael ei ddiystyru fel safle addas posibl i Deithwyr. Nid oes unrhyw broblemau y gwyddys amdanynt mewn perthynas â darparu dŵr i Safle 3 o'r cyflenwad presennol yng Nghanolfan Ailgylchu'r Cyngor.

O ran materion diogelwch y ffyrdd, nid ystyrir bod Safle 1 yn addas oherwydd ei fod yn agos at ffordd Dosbarth A brysur a chyflym fel y nodir gan Heddlu Gogledd Cymru (yn Atodiad 2). Mae hyn o bryder arbennig petai plant yn ymweld â'r safle. Mae trigolion lleol hefyd wedi mynegi pryder ynghylch y risg o ddamwain ar y ffordd oherwydd mae cŵn ar y safle a gwelwyd mwg yn codi o danau ar y safle yn y gorffennol. Gellir darparu mynedfa ddiogel i gerbydau i Safleoedd 2 a 3 ac mae'r ddau safle wedi eu lleoli ar ffyrdd bychan.

Un anfantais sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu'r safle presennol yw'r tebygolrwydd y byddai'n rhaid symud y trigolion presennol am gyfnod dros dro er mwyn medru cwblhau'r gwaith adeiladu angenrheidiol. Gallai lledu'r fynedfa gyfredol ar ochr ddeheuol y safle a gwneud gwaith arall, leihau'r risg o ddamweiniau a gwella diogelwch ar y ffyrdd ond un o brif anfanteision y safle hwn yw ei fod yn weddol fychan. Nid ystyrir y byddai modd ehangu'r safle hwn i ddarparu lleiniau ychwanegol. Gelid darparu lleiniau ychwanegol a lle chwarae yn Safleoedd 2 a 3 yng Ngaerwen a Phenhesgyn petai tystiolaeth i gefnogi'r angen amdanynt.

**Ansawdd Aer**

Mae pryderon wedi eu derbyn am ansawdd yr aer yng nghyffiniau Canolfan Ailgylchu Penhesgyn a fyddai'n gwneud y safle yn anaddas fel safle parhaol ar gyfer Teithwyr Newydd ar sail iechyd. Comisiynodd y Cyngor ymgynghorwyr i asesu ansawdd yr aer yn y safle arfaethedig i Sipsiwn a Theithwyr ym Mhenhesgyn. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod y crynodiadau o fater gronynnol yn yr aer a deuocsid nitrogen yn yr ardal yn llawer is na'r terfyn amcan ansawdd aer.

Mae'r Ymgynghorwyr hefyd wedi adolygu data bioaerosol a gasglwyd ers 2014 ... Amlygodd yr adroddiad bod lefelau bioaerosol yn uwch na'r terfyn ym mis Mehefin 2015 ond dim ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r Ymgynghorwyr yn argymell y dylid parhau i fonitro er mwyn penderfynu a yw'r ffaith nad aethpwyd dros y terfynau ym mis Rhagfyr 2015 yn gynrychioliadol o'r amodau nwydd sy'n deillio o ganlyniad i newidiadau mewn gweithgareddau neu'r ffordd o drin y deunydd yn y gwaith compostio. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwastraff, Priffyrdd ac Eiddo wedi dweud wrth swyddogion mai newidiadau i arferion gweithio wrth ddelio â gwastraff gwyrdd sydd i gyfrif am y gostyngiad sylweddol mewn lefelau bioaerosol ym mis Rhagfyr 2015.

Bydd gwaith monitro a gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r effaith ar iechyd, gan gynnwys ansawdd yr aer (gweler Argymhelliad 2.). Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r paratoadau ar gyfer gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

**Crynodeb o ganfyddiadau'r Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Dywedodd yr eiriolwr annibynnol fod trigolion safle Pentraeth yn teimlo dan fygythiad go iawn oherwydd y sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar a bod y sylw hwn wedi eu gwneud yn llai parod i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau gyda'r Cyngor. Mae'r eiriolwr wedi llwyddo i siarad â thri o'r pedwar o aelwydydd ar y safle. Mae'r trigolion yn ystyried bod ganddynt lawer o gwestiynau dilys sydd angen eu hateb cyn y byddent yn teimlo'n gyfforddus gyda'r broses ymgynghori. Mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch lle y byddant yn byw am gyfnod dros dro petai eu safle presennol yn cael ei ailddatblygu, lefelau rhent tebygol, beth fyddai rheolau'r safle a materion yn ymwneud â'r dyluniad a'r gwaith tirlunio arfaethedig. Er nad yw'r eiriolwr wedi gallu cael barn yr holl drigolion, mae wedi dweud y byddai'n well ganddynt aros yn eu safle presennol.

Er y cafwyd rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am y trigolion a'u dymuniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'n bwysig bod deialog ac ymgysylltu pellach yn digwydd fel y gall y Cyngor gymryd barn y trigolion i ystyriaeth yn y broses o ddarparu safle awdurdodedig ac er mwyn i'r Cyngor fedru egluro i'r trigolion eu gofynion o ran y safle a'i reoli.

**Crynodeb o'r ymgynghoriad**

- **Ymatebion yr holiadur**


Cafodd 268 o holiaduron eu llenwi.

Cafwyd 30 o lythyrau gan y cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb

Mae'r tabl canlynol yn egluro'r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf yn yr holiadur ymgynghori, oedd yn gofyn i ymatebwyr osod y safleoedd yn y drefn roeddent yn ei ffafrio – 1 ar gyfer y safle roeddent yn ei ffafrio fwyaf a 3 ar gyfer y safle roeddent yn ei ffafrio leiaf. Dewisodd 30 o ymatebwyr beidio â nodi unrhyw un o'r safleoedd.

| | Dewis cyntaf | Ail ddewis | Trydydd dewis |
|---|---|---|---|
| Safle1. Gwersyll presennol y gilfan ar yr A5025 gilfan rhwng Porthaethwy a Phentraeth | 77 | 36 | 125 |
| Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen | 90 | 64 | 84 |
| Safle 3 Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd | 71 | 138 | 29 |

Mae'r graff canlynol yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn olaf lle gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r ddau ffactor, a oedd bwysicaf yn eu dewis o safle.




Mae'r siart uchod yn dangos bod y sawl a ymatebodd i'r holiadur o’r farn mai’r ddau ffactor pwysicaf dros ddewis safle yw’r effaith ar yr amgylchedd 55.7% ac effaith ar eiddo preswyl cyfagos 58.1%.

**Crynodeb o’r sylwadau a dderbyniwyd**

Mae’r tablau yn Atodiad 3 yn crynhoi themâu’r sylwadau a wnaed fwyaf trwy lythyr, e-bost neu’r holiaduron a materion eraill a godwyd sy’n cael effaith uniongyrchol ar bennu pa mor addas a rhesymol yw dewis safleoedd unigol.

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| |

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. |

| D - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| DD - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(Gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br>(Gorfodol) | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**<br>(Gorfodol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Penderfynwyd<br>• Nodi’r adroddiad<br>• Nodi na wnaeth y Pwyllgor Sgriwtini a Phartneriaeth unrhyw argymhelliad i’r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â’r mater hwn oherwydd amryfal bryderon a fynegwyd yn y cyfarfod.<br>• Bod y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith gyda hyn. |
| 9 | **Aelodau lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| F - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Mae'r adroddiad yn cydnabod bod adnabod safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn fater lle |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hybu cydlyniant cymunedol ac atal gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu ar neu erlid Sipsiwn a Theithwyr sydd yn grŵp a ddiogelir o dan y Ddeddf. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Safle Diwygiedig 3<br><br>Atodiad 2 -  Llythyrau oddi wrth:<br><br>Dŵr Cymru dyddiedig 4 Mawrth ac 8 Ebrill<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cyngor Cymuned Penmynydd<br>Cyngor Cymuned Cwm Cadnant<br>Cyngor Cymuned Llanddona<br>Llanfihangel Esceifiog<br>MSParc<br>Prifysgol Bangor<br><br>Atodiad 3 – Themâu sylwadau a wnaed trwy lythyr, e-bost neu holiaduron, ynghyd ag ymateb y swyddogion. |

| **G - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.<br>2. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn, Chwefror 2016 Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio Economaidd 02/02/16.<br>3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.<br>4. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd – Adroddiadau |

| | |
|---|---|
| | i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 29/01/2016 |
| 5. | Adroddiad Pwnc 18A Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd – Nodi Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr – diweddariad 2016 |

**Atodiad 2**


Map yn dangos dyraniad arfaethedig ar gyfer Safle Teithwyr preswyl parhaol, Cynllun Tir  yn Penhesgyn, Penmynyddd, Pwyllgor Gwaith Ynys Môn, 31 Mai 2016

Atodiad / Appendix 1

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**
**Joint Local Development Plan**

**Safle Posib Sipsiwn a Teithwyr / Potential Gypsy a Travellers Site**

## SAFLE DIWYGIEDIG/ REVISED SITE 3




**Tir ger Safle Penhesgyn/Land adj.t to the Penhesgyn Site**

**Atodiad 3**

Eitem 2. Adroddiad Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Man Aros Dros Dro ar gyfer Canol yr Ynys. Pwyllgor Gwaith Ynys Môn, 25 Gorffennaf 2016

Eitem 3. Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Mannau aros dros dro yn ardal Nghaergybi. Pwyllgor Gwaith Ynys Môn, 25 Gorffennaf 2016

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 19 Gorffennaf 2016 - Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>25 Gorffennaf 2015 Pwyllgor Gwaith |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Man Aros Dros Dro ar gyfer Canol yr Ynys |
| **Deilydd (ion) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Lucy Reynolds, Rheolydd y Strategaeth Dai a Dabtlygu<br>Est2225<br>lucyreynolds@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Y Cyng Meirion Jones, Y Cyng Jim Evans,<br>Y Cyng Alun Mummery, Y Cyng Hywel Eifion Jones<br>Y Cyng Victor Hughes, Y Cyng Llinos Medi,<br>Y Cyng Ken Hughes, Y Cyng John Griffith,<br>Y Cyng Bob Parry, Y Cyng Nicola Roberts,<br>Y Cyng Dylan Rees |

| A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau |
|---|

**Argymhellion:** wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ymarferion ar gyfer asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir:

1. Y naill neu'r llall o'r 2 safle isod:
   - Safle 1, llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanddaniel a Chroesffordd Star
   - Safle 2, llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen

fel y safleoedd a ffefrir i gael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn amodol ar gynnwys argymhelliad 3. Wedi pwyso a mesur, mae swyddogion o'r farn y gellid cynllunio a darparu Safle 1 o fewn amserlen resymol, ond ni fedr roi'r un sicrwydd mewn perthynas â Safle 2.

2. Dylai aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio roi eu barn ynghylch pa un o'r ddau safle yw'r opsiwn a ffefrir ar gyfer ei gynnwys yn y

Cynllun Datblygu Lleol.

3. Dylai'r cyngor gynnal ymchwiliadau pellach i safleoedd 1 a 2 er mwyn cadarnhau a ydynt yn addas ai peidio. Dylai hyn gynnwys:

   a) Asesiad o effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal o gwmpas yr Heneb Gofrestredig sydd gerllaw ac os ystyrir bod yr effaith yn dderbyniol, dylid cynnal archwiliadau archeolegol pellach fel yr argymhellir gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd i gadarnhau a fyddai'r materion a godwyd gan y gwasanaeth yn gwahardd cynnwys y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol.
   b) Asesiad pellach o unrhyw risgiau i ddiogelwch neu risgiau technegol ar y safle ac ystyried a fyddai modd dylunio'r safle er mwyn datrys y rhain

4. Dylai CSYM benodi ymgynghorydd priodol i baratoi dyluniad ar gyfer y safle ac i gyflwyno'r Cais Cynllunio angenrheidiol ar gyfer y safle a ddewisir.

5. Sylwer: Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran, er nad yw wedi cael ei ddiystyru ar sail gynllunio, mae mwy o gyfyngiadau ac ni ddylir symud ymlaen gyda'r safle am faterion diogelwch ffyrdd a nodwyd gan yr angenrheidrwydd i greu mynedfa newydd i'r safle oddi ar yr A5.

6. Dylai CSYM barhau i ddiwallu ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y trigolion i deimlo'n ddiogel ac i fod yn rhan o ymgynghoriad ar faterion datblygu a'r gydnabyddiaeth fod gan y Cyngor gyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Rhesymau dros yr argymhellion**

Mae swyddogion wedi asesu nifer arwyddocaol o safleoedd amgen ac wedi ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r fethodoleg i asesu safleoedd addas posibl. Ystyriwyd mai'r tri safle a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad diweddar oedd y mwyaf addas i gael eu datblygu fel man aros dros dro.

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd digwyddiadau Galw Heibio a chyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned yr ardaloedd lle mae'n bosib y bydd y safleoedd yn cael eu lleoli. Trefnodd Cyngor Cymuned Penmynydd a Chyngor Cymuned Bryngwran gyfarfodydd cyhoeddus a daeth cryn dipyn o bobl iddynt. Mynychodd dros 70 o bobl y cyfarfodydd Galw Heibio yn Y Gaerwen a Bryngwran.

Cafodd dros 700 o holiaduron eu llenwi ar-lein neu ar bapur. Derbyniwyd 14 o lythyrau mewn perthynas â safleoedd 1-3 gan aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau yn ogystal â'r ymatebion gan ymgyngoreion yn y sector cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys fel Atodiad. Cyflwynwyd deiseb i'r Cyngor o'r enw "Deiseb yn gwrthwynebu i Gyngor Ynys Môn leoli safle dros dro ar gyfer Sipsiwn ar dir ger Fferm Cymunod Bryngwran" yn cynnwys 518 o lofnodion. Dylid nodi nad nifer yr ymatebion yw'r ffactor pwysicaf wrth wneud penderfyniad priodol.

Ar gyfer pob un o'r tri safle yn yr ymgynghoriad, daethpwyd ar draws gwrthwynebiad lleol sylweddol yn ystod yr ymgynghoriad er nid oes modd defnyddio hyn fel cyfiawnhad dros beidio â chynnwys safle penodol heb dystiolaeth. Ar hyn o bryd, nid oes safleoedd swyddogol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, felly mae'n ddealladwy bod hwn yn fater sy'n achosi pryder. Mae'r diffyg safleoedd yn ei dro yn rheswm dros y gwersylloedd diawdurdod sy'n achosi tensiynau cymunedol a chanfyddiadau negyddol o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Yn anffodus, mewn rhai achosion, roedd y sylwadau a wnaed yn dangos diffyg gwybodaeth am y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'i hanes yn y wlad hon.

Yn ystod yr ymgynghoriad fe dderbyniwyd llythyr gan Mr Mark Inwood, a gododd nifer o gwestiynau am y broses ymgynghori. Mae copi o lythyr Mr Inwood wedi'i atodi, ynghyd ag ymateb llawn y Cyngor. Yn dilyn cyfnewid gohebiaeth fe gynhaliwyd cyfarfod rhwng yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a Mr Inwood, lle trafodwyd y cwestiynau mewn mwy o fanylder. Eglurodd yr Uned wrth Mr Inwood y cynhaliwyd yr ymgynghoriad diweddar er mwyn helpu i adnabod darn addas o dir i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel Man Stopio dros dro er mwyn bodloni anghenion y Teithwyr Sipsi sydd wedi bod yn aros ym Mona dros y blynyddoedd diwethaf, fel y nodwyd hynny yn Asesiad Ynys Môn a Gwynedd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016. Eglurodd fod yr arweiniad a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio mewn perthynas â'r newidiadau a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses Archwilio (Newidiadau o ran Materion sy'n Codi) yn awgrymu efallai y bydd angen i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad a gwneud gwaith ar werthusiad cynaliadwyedd o'r Newidiadau o ran Materion sy'n Codi ac, ar y sail y gallai'r broses hon arwain at sylwadau o'r newydd, byddai'r Arolygydd yn ymestyn yr hawl i fynychu gwrandawiadau i'r rhai hynny sy'n ceisio gwelliant yn dilyn yn uniongyrchol o'r newidiadau ôl-gyflwyno arfaethedig. Mae'r amserlen bresennol ar gyfer y broses Archwilio yn awgrymu y byddai'r ymgynghoriad ychwanegol yn debygol o gael ei gynnal yn ystod mis Tachwedd neu Ragfyr 2016. Bydd rhai o'r materion a godwyd gan Mr Inwood yn ei lythyr yn cael sylw yn ystod y cam dylunio safle, tra byddai'n rhaid delio ag eraill cyn i Gais Cynllunio gael ei gyflwyno.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei ddarparu yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Fodd bynnag, rhaid rhoddi'r pwys mwyaf ar faterion sy'n dangos yn wrthrychol y byddai'r defnydd o safle a nodwyd yn risg corfforol i iechyd a diogelwch preswylwyr neu'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r profiad o'r gwersylloedd diawdurdod presennol a phryderon y gymuned leol mewn perthynas â'r rhain yn tystio i'r ffaith y byddai safle sy'n fwy diarffordd yn lleoliad gwell ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. Mae costau sefydlu safle o'r fath yn ffactor o bwys. Mae'r costau amrywiol posibl yn cynnwys caffael tir lle mae'r tir mewn perchnogaeth breifat a chostau creu mynedfa ddiogel i'r briffordd ac unrhyw welliannau angenrheidiol i'r priffyrdd. Ceir cymhariaeth o fanteision ac anfanteision pob safle yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn dangos y gellid datblygu pob un o'r 3 safle ond i raddau amrywiol, mae yna gyfyngiadau y dylid ymchwilio iddynt cyn symud ymlaen i gyflwyno cais cynllunio. Yn benodol, mae'r ymateb gan Adran Briffyrdd CSYM yn cadarnhau bod materion ynghylch diogelwch ffyrdd yn ei gwneud yn annhebygol y gellid darparu mynedfa sy'n cwrdd â'r gofynion isaf o safbwynt gwelededd digonol yn Safle 3, Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran. Ar sail gronnol, mae materion sy'n gysylltiedig â Safle 3 yn fwy arwyddocaol ac o'r herwydd, ystyrir bod y safleoedd eraill yn fwy priodol ar gyfer ymchwilio ymhellach iddynt.

- Mae'r ffactorau o blaid ac yn erbyn y ddau safle sy'n weddill, Safle 2 – Llain o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen a Safle 1, Llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star, yn wahanol iawn, ac yn adlewyrchu gwahanol amgylchiadau a lleoliadau'r 2 safle: Mae mân-ddaliadau Gaerwen ar hyn o bryd yn eiddo i CSYM ac ni fyddai mynediad drwy'r A55 yn effeithio ar bentrefi lleol. Fodd bynnag, rhaid cymryd i ystyriaeth ei agosrwydd at y Parc Gwyddoniaeth. Er bod Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi nodi Cyfyngiad o Bwys, nid yw hyn yn golygu bod rhaid diystyru'r safle oherwydd, gydag ymchwiliadau archeolegol ynghyd ag ystyriaeth ofalus i ddyluniad y safle, gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

- Mae yna lai o bryderon datblygu economaidd a thechnegol mewn perthynas â'r safle yng Nghroesffordd Star. Fodd bynnag, byddai costau ychwanegol ynghlwm oherwydd yr angen i brynu dau ddarn o dir ar wahân gan ddau berchennog.

Wedi pwyso a mesur, mae swyddogion o'r farn y gellid cynllunio a datblygu Safle 1 – Llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star i greu safle addas o fewn cyfnod rhesymol o amser, ac mae llai o sicrwydd y gellid gwneud hynny yn achos safle'r Gaerwen herwydd yr angen am ychwaneg o ymchwiliadau archeolegol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, rydym wedi clywed gan nifer o fusnesau sydd â phryderon ynghylch yr effaith ar bremiymau yswiriant sydd, yn ôl eu dealltwriaeth nhw, yn debygol o gynyddu os bydd safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig wedi ei leoli gerllaw. Rydym wedi dwyn y pryder hwn i sylw Llywodraeth Cymru gan fod hyn yn debygol o fod yn berthnasol i bob safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a byddai yr un mor berthnasol i fusnesau yng nghyffiniau unrhyw un o'r tri safle arfaethedig. Yn Argraffiad 8 o Bolisi Cynllunio Cymru (2016), nodir polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ni fyddai cynnydd mewn premiymau yswiriant ynddo'i hun yn ffactor ac yn ystyriaeth o bwys y gallai'r Awdurdod Cynllunio ei ystyried wrth benderfynu ar gais cynllunio arfaethedig.

**Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae'r Fframwaith *'Teithio at Ddyfodol Gwell'* gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio Sipsiwn a Theithwyr fel un o'r grwpiau mwyaf eithriedig ac ymylol yn y gymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi sylw i'r anghydraddoldebau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu drwy wella cyfle cyfartal i bawb.

Mae Asesiad Statudol Ynys Môn a Gwynedd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, wedi nodi'r angen am safleoedd parhaol a safleoedd dros dro yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol.

Yn yr asesiad statudol ar gyfer Ynys Môn a gynhaliwyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, nodwyd bod angen dau o fannau aros dros dro

- Un Man Aros Dros Dro i gwrdd ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwersylla am ychydig o nosweithiau ar i ffordd borthladd Caergybi ac oddi yno.
- Un Man Aros Dros Dro i gwrdd ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd â phatrwm traddodiadol o wersylla am gyfnodau o hyd at nifer o wythnosau yng nghanol Ynys Môn

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar dri safle a allai ddarparu Man Aros Dros Dro yng nghanol Ynys Môn.

Yn ystod y broses ymgynghori, mae'r Cyngor wedi sefydlu cysylltiadau newydd gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd naill ai wedi bod yn gwersylla ym Mona yn y gorffennol neu sydd yn adnabod Teithwyr sy'n aros ar Ynys Môn. Yn ôl yr adborth a gafwyd gan y cysylltiadau hyn, maent o'r farn y dylai safle dros dro fod yn debyg i'r math o ddarpariaeth a wneir ar gyfer y Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwersylla yng nghanol Ynys Môn. Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol sydd wedi eu dylunio ar gyfer eu defnyddio am gyfnodau dros dro gan y Sipsiwn a

Theithwyr sy'n aros yno. Caniateir i ddeiliaid unigol fyw ar y safle am uchafswm o 3 mis ar y tro. Mae hon yn farn newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers yr Asesiad o Lety i Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd yn 2015. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o batrymau, gan gynnwys sgyrsiau diweddar gyda rhai'r sy'n aros yn y gwersyll anawdurdodedig ar Stad Ddiwydiannol Mona, rydym yn glir mai safle lle gellir aros am gyfnodau byr o 2 neu 3 wythnos ar y tro sydd ei angen. Er ein bod yn gwerthfawrogi pryderon Sipsiwn a Theithwyr am gael eu troi allan os ydynt yn aros am fwy na'r cyfnod a ganiateir, nid ydym wedi gweld tystiolaeth eu bod yn aros am fwy na 3 wythnos mewn amgylchiadau arferol.

**Cyfiawnhad dros ffafrio Safle 1 neu Safle 2 fel y safle a ffefrir ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn amodol ar asesiad technegol perthnasol pellach o bob safle**

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi manteision ac anfanteision pob safle

<u>Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star</u>

| **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|
| • Mae yma'r cysylltiadau ffordd sy'n angenrheidiol ar gyfer man aros dros dro (h.y. Mynediad uniongyrchol at yr A5 a mynediad rhwydd i'r A55)<br><br>• Mae'r safle yn ffisegol addas fel lleoliad ar gyfer man aros dros dro (os yw'n cael ei gyfyngu i ddau yn hytrach na thri chae er mwyn sicrhau nad yw unrhyw dir sydd mewn perygl o lifogydd yn cael ei gynnwys)<br><br>• Nid yw'r safle union gerllaw eiddo preswyl gan sicrhau y diogelir preifatrwydd trigolion lleol a defnyddwyr y safle<br><br>• Nid yw Adain Datblygu Economaidd CSYM yn rhagweld unrhyw broblemau mewn perthynas â'r safle hwn ac yn ei gefnogi mewn egwyddor | • Mae'r safle wrth ymyl ffordd brysur. Dim llwybr troed i mewn i'r ganolfan gwasanaeth agosaf.<br>• Gellir sicrhau mynediad diogel i'r A5 o'r safle ond byddai'n rhaid lledu'r llain gwelededd. Byddai angen adroddiadau technegol a dichonoldeb pellach.<br>• Mae peth o'r tir a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn y parth risg llifogydd er bod digon o dir ar gael heb orfod defnyddio'r rhan honno o'r tir<br>• Gan fod y safle mewn perchenogaeth breifat, byddai'n golygu costau caffael i'r Cyngor<br>• Pryderon lleol y bydd ddau safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu lleoli yn yr un ward. (Mae'r Cyngor wedi dewis tir ym Mhenhesgyn i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i ddarparu safle parhaol ar gyfer pedair o aelwydydd Teithwyr Newydd) |

| | |
|---|---|
| | |

Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Mae'r safle'n ddigon pell oddi wrth eiddo preswyl i ddiogelu preifatrwydd trigolion lleol a defnyddwyr y safle<br>• Mynediad da i'r A55 ar gyfer carafanau heb i hynny gael effaith ar y gymuned leol.<br>• Mae'r tir yn eiddo i'r Cyngor ac ni fyddai unrhyw gostau caffael tir.<br>• Gellir darparu mynedfa newydd o'r safle i ffordd dawel heb broblemau technegol sylweddol.<br>• Mae lleoliad y safle yn golygu y byddai'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer y grwpiau o deulu sydd fel arfer yn defnyddio mannau aros dros dro | • Byddai angen ymchwiliadau archeolegol fesul cam pellach i sicrhau y gellid symud ymlaen gyda'r safle hwn yn ei flaen heb i hynny effeithio ar heneb gofrestredig ac ardal a allai fod yn un o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol<br><br>• Mae'r Parc Gwyddoniaeth yn cael ei ddatblygu yn y Gaerwen. Mynegwyd pryderon y byddai sefydlu man aros dros dro yn y lleoliad arfaethedig yn lleihau apêl y parc gwyddoniaeth a gallai gyfyngu mynediad cyhoeddus i'r Parc.<br><br>• Byddai effaith weledol y safle pan yn cael ei ddefnyddio yn fwy nag ar gyfer y safleoedd eraill oherwydd ei fod ar dir uchel. |

Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymonod, Bryngwran

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Mae ganddo'r cysylltiadau ffordd angenrheidiol ar gyfer man aros dros dro (h.y. Mynediad uniongyrchol i'r A5 a mynediad rhwydd i'r A55)<br><br>• Nid yw'r safle union gerllaw eiddo preswyl gan sicrhau y diogelir preifatrwydd trigolion lleol a defnyddwyr y safle | • Mae'r fynedfa bresennol i'r tir yn is-safonol o ran gwelededd. Gellid creu mynedfa newydd i'r A5 ond mae yna faterion diogelwch ffyrdd sy'n golygu y byddai'n annhebygol y byddai modd creu mynedfa sy'n cwrdd â'r gofynion isaf. Mae hyn oherwydd y cyfyngir ar welededd oherwydd gelltydd a phantiau dall ar rannau o'r A5. |


| | |
|---|---|
| • Mae'r safle yn ffisegol addas fel lleoliad ar gyfer man aros dros dro. | • Gan fod y safle mewn perchenogaeth breifat byddai'n golygu caffael i'r Cyngor.<br>• Mae gan adain Datblygu Economaidd CSYM bryderon y gallai lleoliad y safle hwn effeithio'r busnesau gwerth uchel sy'n agos iawn a'r cyfleuster Parcio a Theithio posibl ar gyfer Wylfa Newydd. |

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

**Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star**

Cafwyd sylwadau mewn 538 o holiaduron mewn perthynas â'r safle hwn. Yn ogystal, cafwyd 4 llythyr gan aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau yn ogystal ag ymatebion gan gyrff cyhoeddus.

Mae'r graff canlynol yn dangos y ganran o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y safle hwn dan y categorïau Addas iawn, Derbyniol neu Anaddas.




Dyma'r pum mater a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau pam nad oedd y safle yn addas:

| |
|---|
| Rhy agos at ffordd brysur beryglus heb unrhyw lwybrau troed i mewn i bentrefi cyfagos, pryderon am ddiogelwch teithwyr |
| Gallai'r safle fod yn ddolur llygad ac effeithio ar dwristiaeth yn yr ardal |
| Mae'r safle mewn ardal lle mae perygl llifogydd ac yn dueddol o gael llifogydd yn y gaeaf |
| Ofnau y byddai mwy o droseddu yn yr ardal |
| Yn rhy agos at ardal breswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel) |

Roedd y rhesymau a nodwyd ar gyfer cefnogi'r safle yn cynnwys

| |
|---|
| Hwylus ac yn agos at yr A55 |
| Ddim yn agos at ysgol neu dai |

**Safle 2 - Darn o dir mewn mân-ddaliad yn Y Gaerwen**

Cafwyd sylwadau mewn 508 o holiaduron ar y safle hwn. Derbyniwyd 1 llythyr hefyd oddi wrth berchennog busnes yn ychwanegol at ymatebion gan gyrff cyhoeddus

Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y safle hwn dan y categorïau Addas iawn, Derbyniol neu Anaddas.




Dyma'r pum mater a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau pam nad oedd y safle yn addas:

| |
|---|
| Gallai gael effaith negyddol ar y parc gwyddoniaeth arfaethedig |
| Ofnau y bydd trosedd yn yr ardal yn cynyddu |
| Mae’r ffyrdd yn rhy gul a phrysur, pryderon am ddiogelwch teithwyr |
| Gallai’r safle fod yn ddolur llygad ac effeithio twristiaeth yn yr ardal |
| Ardal o harddwch naturiol eithriadol a thir ffermio na ddylid ei ddefnyddio |
| Rhy agos at ardal breswyl (ni fyddai’r trigolion yn teimlo’n ddiogel) |


Roedd y materion a grybwyllwyd dros gefnogi’r safle yn cynnwys:

| |
|---|
| Hwylus ac yn agos at yr A55 |
| Ddim yn rhy agos at ardaloedd preswyl |
| Y tir yn eiddo i'r Cyngor |
| Ddim yn agos at ysgol / meithrinfa |

**Safle 3 Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran**

Cafwyd sylwadau mewn 524 o holiaduron ar y wefan hon. Cafwyd 9 llythyr hefyd oddi wrth aelodau o'r cyhoedd neu fusnesau yn ogystal ag ymatebion gan gyrff cyhoeddus.

Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y safle hwn dan y categorïau Addas, Derbyniol neu Anaddas.




Y pum mater a grybwyllwyd amlaf fel rhesymau pam nad oedd y safle yn addas:

| |
|---|
| Ofnau y byddai mwy o droseddu yn yr ardal |
| Ffordd yn brysur a mynediad i'r safle wrth gyffordd ddall, pryderon am ddiogelwch teithwyr |
| Effaith negyddol ar yr amgylchedd (sbwriel, sŵn, anifeiliaid yn crwydro) ac iechyd a diogelwch defnyddwyr y ffyrdd |
| Effaith negyddol ar fusnesau lleol |
| Yn rhy agos at ardal breswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel) |

Roedd y rhesymau a grybwyllwyd yn cefnogi'r safle yn cynnwys

| |
|---|
| Ddim yn rhy agos at y pentref / ardaloedd preswyl |
| Hwylus ac yn agos at yr A55 |

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gweler Adroddiadau a chofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2016. |

| **C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (Gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | Mae Adran Eiddo CSYM wedi bod yn ymwneud yn agos â'r holl broses o nodi safleoedd. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Roedd cyfarfod o'r Bwyllgor Sgriwtini |

| | | |
|---|---|---|
| | | Partneriaeth ac Adfywio ar 19/7/16.<br>Bydd adborth yn cael eu ddarparu i'r Pwyllgor Gwaith ar 25/7/16. |
| 8 | **Aelodau lleol** | Mae'r holl Aelodau Lleol wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall (eraill)** | Heddlu Gogledd cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd<br>Cyngor Cymuned Bodedern<br>Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog<br>Prifysgol Bangor<br>SPARC<br>Adrannau CSYM:<br>Adain Briffyrdd<br>Adain Ddraenio<br>Adran Reoleiddio (Datblygu Economaidd, Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd) |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau liniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Gweler Atodiad – Ebost gan Heddlu Gogledd Cymru |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Mae'r adroddiad yn cydnabod bod rhaid i'r Cyngor, wrth nodi safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010, a rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal gwahaniaethu, aflonyddu, neu erlid Sipsiwn a Theithwyr sy'n grŵp a ddiogelir dan y Ddeddf. |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **arall** | Risgiau y bydd hyn yn peri oedi o ran mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu.<br><br>Risg i enw da'r Cyngor. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Llythyrau oddi wrth:<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Adnoddau Naturiol Cymru<br>Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd<br>Adain Priffyrdd<br>Adain Ddraenio<br>Adran Rheoleiddio<br>Cyngor Cymuned Bodedern<br>Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog<br>Prifysgol Bangor<br>SPARC<br>Dwr Cymru<br>Rhestr hir o safleoedd<br>Llythyr dyddiedig 13/6/16 oddiwrth Mr Mark J Inwood<br>Llythyr dyddiedig 19/6/16 i Mr Mark J Inwood<br>Cyngor Cymuned Penmynydd |

| **Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) - FF:** |
|---|
| 1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.<br>2. Asesiad Gwynedd ac Ynys Môn o Lety i Sipsiwn a Theithwyr Chwefror 2016 Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a'r Pwyllgor Partneriaeth a Datblygu Economaidd 02/02/16.<br>3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.<br>4. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Mehefin -1 af Gorffennaf, Papurau Pwnc 2016.<br>5. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, Adroddiadau i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 29/01/2016<br>6. Adroddiad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd: Adroddiad Pwnc 18A Nodi Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr - diweddariad 2016<br>7. Rhestr hir o safleoedd a nodwyd gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Y Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 19 Gorffennaf, 2016<br>25 Gorffennaf, 2016 |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad 2 ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn – Mannau aros dros dro yn ardal Nghaergybi. |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled M Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Mike Evans, Uwch Swyddog Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.<br>01286 679825<br>mikeevans@gwynedd.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Dafydd Rhys Thomas<br>Jeffrey M Evans<br>Trefor Lloyd Hughes<br>J Arwel Roberts<br>Raymond Jones<br>Robert Llewelyn Jones |

**A – Argymhelliad(ion) a rheswm/rhesymau**

Argymhellion: ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori a'r ymarferion asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir :

1. Na ddylid bwrw ymlaen gyda'r naill na'r llall o'r ddau safle a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel lle aros dros dro yng nghyffiniau Caergybi ac ni ddylid cynnwys yr un ohonynt yn y Cynllun Datblygu Lleol.

2. Dylai CSYM wneud gwaith pellach i ddod o hyd i safleoedd amgen i gwrdd â'r angen am le aros dros dro yn ardal Caergybi fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2016 er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

3. Dylai CSYM wneud gwaith pellach i ddeall yn well faint o ddefnydd a wneir o borthladd Caergybi gan Sipsiwn a Theithwyr a nifer y gwersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd o ganlyniad i deithio i'r Porthladd ac oddi yno. Hyn i gynnwys trafodaethau pellach gyda'r Heddlu, Awdurdodau Porthladd, Llywodraeth Cymru a chydranddeiliaid eraill.

4. Fel datrysiad tymor byr, bod CSYM yn ystyried gosod biniau mewn lleoliad addas i ostwng nifer yr achosion o gael gwared ar wastraff domestig yn anghyfreithlon a fu’n gysylltiedig â gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghaergybi.

5. Dylai CSYM barhau i gyflawni ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn gydbwyso anghenion cymunedau lleol a Sipsiwn-Teithwyr sy’n ymweld er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel, a dylid ymgynghori â nhw ar faterion datblygu, gan gydnabod bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu yn erbyn agweddau hiliol a herio sylwadau ymfflamychol.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

Cafwyd gwrthwynebiad sylweddol yn y gymuned leol i’r ddau safle yr ymgynghorwyd arnynt. Ni fedrir defnyddio gwrthwynebiad lleol sylweddol nad oes tystiolaeth ar ei gyfer fel cyfiawnhad dros benderfynu peidio â chynnwys safe penodol. Ceir crynodeb o'r ymgynghoriad yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Fodd bynnag, fel yr amlinellir isod, codwyd rhai materion hollbwysig sy'n golygu na ellir ystyried bod y safleoedd hyn yn addas ar gyfer eu cynnwys fel dyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy’n esblygu ac ar gyfer symud ymlaen i gais cynllunio.

**Rhesymau dros argymhelliad 1**

**Safle 4 - Tir hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)**

Mae'r tir yn rhan o Barth Menter Llywodraeth Cymru. Mae Adain Datblygu Economaidd y Cyngor ac Is-adran Eiddo Llywodraeth Cymru yn pryderu y gallai'r defnydd dros dro arfaethedig rwystro buddsoddiad pellach sy'n creu swyddi yn yr ardal. Mae’r polisïau yng nghynllun Adneuol y Cyngor yn cefnogi'r ddadl hon, h.y. mae polisi CYF2, Defnydd Ategol o Dir Cyflogaeth, yn cadarnhau'r angen i warchod tir cyflogaeth ac na fydd tir ar gyfer defnydd ategol ond yn cael ei ryddhau o dan amgylchiadau eithriadol. Mae polisi CYF4, Defnyddiau Amgen o Safleoedd Cyflogaeth hefyd yn datgan mai dim ond mewn amgylchiadau arbennig y caniateid gwneud defnydd amgen o dir sydd wedi ei neilltuo ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 neu B8. Mae Llywodraeth Cymru, fel cydberchennog y safle hwn, o'r farn y dylai ei holl dir ym Mharc Cybi gael ei ddiogelu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth i’r dyfodol ac nid yw’n fodlon i’r safle gael ei ddefnyddio gan y Cyngor fel safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr, hyd yn oed am gyfnod interim. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod ffordd yn gwahanu’r safle hwn oddi wrth brif safle Parc Cybi a bod y mynediad i’r safle ar hyn o bryd trwy ran wahanol o’r dref ac nad yw’n arbennig o amlwg oherwydd y coed a’r gwrychoedd aeddfed sydd yno’n barod.

Mae llawer o'r gwrthwynebwyr o'r farn y byddai'n amhriodol lleoli safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr wrth ymyl ysgol a meithrinfa i blant. Er nad yw pryderon am ddiogelwch personol a chymunedol wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ffeithiol, ystyrir ei bod yn ddilys i gymryd rhywfaint o ystyriaeth o ofnau canfyddedig pobl leol. Byddai'r mynediad i'r safle ar gyfer cerbydau yn golygu y byddai cerbydau sy'n tynnu carafannau yn gorfod gyrru drwy ardal breswyl a heibio'r fynedfa i'r ysgol. Er y gellid gwneud rhai gwelliannau i'r briffordd, mae'r rhwydwaith ffyrdd ger yr ysgol yn dueddol o weld tagfeydd yn enwedig pan fydd plant yn cael eu gollwng neu eu codi o'r ysgol. Ystyrir y gallai defnyddio Safle 5 olygu na fyddai cerddwyr mor barod efallai i ddefnyddio'r llwybrau troed cyfagos i gael mynediad i siopau cyfagos ac i ddibenion hamdden.

Er y gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon y cyfeiriwyd atynt a'u lliniaru trwy ddylunio a rheolaeth briodol, ar y cyfan, ystyrir na ddylid argymell y safle fel un sy'n addas i'w datblygu fel safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr. Gallai defnyddio'r safle hwn i Sipsiwn a Theithwyr gael effaith andwyol ar fusnesau a thrigolion lleol i raddau annerbyniol.

**Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi**

Mae Adain Datblygu Economaidd y Cyngor a'r busnesau sy'n gweithredu yng nghyffiniau'r safle hwn wedi mynegi cryn bryder ynghylch effaith safle yn y lleoliad hwn ar fusnesau sy'n bodoli eisoes. Nid yw'r safle hwn wedi ei neilltuo yng Nghynllun Lleol Ynys Môn ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, ond mae gwrthdaro posibl â neilltuo'r safle hwn i ddibenion cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd, a'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu. Mae Canolfan Cymunedol Gwelfor a Meithrinfa Morlo sydd yn agos i Safle 5, ynghyd â thrigolion a busnesau lleol, wedi codi nifer o wrthwynebiadau i'r defnydd posib o'r safle hwn, gan gynnwys niweidio dyfodol y ganolfan gymunedol a chau'r feithrinfa o bosib; risgiau iechyd a diogelwch canfyddedig i'r gymuned gyfagos; materion mynediad a niwed posib i rywogaethau o blanhigion a warchodir. Mae Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor wedi cyfeirio at werth natur a bywyd gwyllt y safle hwn. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y cynnig yn niweidio mwynhad y rheini sy'n defnyddio'r rhan hon o'r Llwybr Arfordirol sy'n ffinio â'r safle.

Er y gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon y cyfeiriwyd atynt a'u lliniaru trwy ddylunio a rheolaeth briodol, ar y cyfan, ystyrir na ddylid argymell y safle fel un sy'n addas i'w datblygu fel safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr. Gallai defnyddio'r safle o bosib fel safle i Sipsiwn a Theithwyr gael effaith andwyol ar fusnesau a thrigolion lleol i raddau annerbyniol.

**Y rheswm dros Argymhelliad 2**

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am safle addas er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r Cyngor i weithredu os na wneir cynnydd rhesymol. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd gynnwys digon o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd neu wynebu'r risg na fydd y cynllun datblygu'n cael ei gymeradwyo gan nad yw'n ddigon cadarn.

Mae'r heddlu (gweler Atodiad 2) wedi cefnogi'r angen am Fannau Aros Dros Dro yn Ynys Môn ar gyfer pobl sy'n disgwyl, hyd y gwyddont, am y fferi i Iwerddon.

**Y rheswm am Argymhelliad 3**

Mae'r ymgynghoriad wedi dechrau deialog rhwng swyddogion y Cyngor a thrigolion, cynrychiolwyr preswylwyr a busnesau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr yn pasio trwy'r dref. Mae angen i'r ymgynghoriad barhau fel y gellir darganfod dull priodol i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n codi. Mae'r Awdurdod Porthladd wedi cael ei nodi fel corff sy'n chwarae rhan hanfodol yn y broses hon.

**Y rheswm am Argymhelliad 4**

Gall darparu biniau mewn mannau addas a gwneud trefniadau ar gyfer casglu sbwriel domestig ostwng nifer yr achosion o gael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon a fu'n gysylltiedig o bryd i'w gilydd â gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghaergybi. Gall camau o'r fath ostwng costau clirio posib a helpu i amddiffyn yr amgylchedd a mwynderau lleol ar gyfer trigolion a busnesau cyfagos.

**Y rheswm dros Argymhelliad 5**

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn lleiafrif ethnig cydnabyddedig ac felly'n cael eu diogelu gan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae o ran creu dealltwriaeth ac ymdrin â rhagfarn tuag at y lleiafrif ethnig hwn. Roedd tystiolaeth bod sibrydion a chamsyniadau ynghylch math a maint y safle arfaethedig wedi bod yn datblygu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn waradwyddus ac yn anghywir.

**Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae Teithio at Ddyfodol Gwell gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio Sipsiwn a Theithwyr fel un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig ac ymylol mewn cymdeithas ers tro byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i unioni'r anghydraddoldeb a wynebir gan Sipsiwn a Theithwyr trwy wella cyfle cyfartal i bawb.

Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn a gynhaliwyd yn 2016 yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi nodi bod angen safleoedd aros parhaol a dros dro ar yr Ynys.

Mae cynigion ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr bron bob amser yn codi gwrthwynebiadau croch gan y rhai sy'n gweld 'bygythiad' gan y math hwn o ddatblygiad, boed yn fygythiad i edrychiad ardal neu i'w chymeriad cymdeithasol. Efallai bod rhai gwrthwynebiadau o'r math hwn yn seiliedig ar ragfarn neu anwybodaeth, yn aml yn seiliedig ar brofiadau gwael neu achlust – mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn i'r Awdurdod Lleol a'i aelodau i fod yn wrthrychol ar y mater.

Mae'r posibilrwydd o droseddoldeb wedi cael ei godi mewn perthynas ag effaith safle arfaethedig i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaergybi neu'r cyffiniau. Fodd bynnag, ychydig iawn o bwys y gellir ei roi ar bryderon cyffredinol ynghylch troseddu , oni bai eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r deiliaid i'r dyfodol.

Derbynnir y gall dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr fod yn fater emosiynol yn ystod y broses gynllunio. Fodd bynnag mae angen gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd ehangach ac mewn ffordd resymegol, ar sail tystiolaeth, gan gydbwyso'r materion hyn yn erbyn ffactorau eraill. Cyn datblygu safle awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr rhaid cael caniatâd cynllunio. Bydd y cam hwn yn y broses yn rhoi manylion a sicrwydd ynghylch materion megis mynediad i gerbydau, cynllun a dyluniad y safle a gwaith tirweddu. Felly, bydd cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol cyn iddo gael ei benderfynu.

**Math a maint y safleoedd y mae angen eu darparu**

Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd yn nodi bod angen lle aros dros dro ar gyfer hyd at 12 o garafannau yng nghyffiniau Caergybi. Y dystiolaeth dros hyn oedd y patrwm a gofnodwyd o wersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd yn ardal Caergybi. Mae rhai Teithwyr a Sipsiwn sy'n defnyddio'r gwasanaeth fferi i Iwerddon yn dewis aros am gyfnodau byr (1-2 diwrnod) yn agos at y Porthladd tra'n aros i ddal fferi neu ar ôl cyrraedd o Iwerddon.

**Safleoedd posib yn ardal Caergybi y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn eu cylch rhwng 11 Chwefror, 2016 a 11 Mawrth, 2016:**

Cafodd y safleoedd canlynol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel safleoedd posib ar gyfer rhestr fer o safleoedd yng Nghaergybi,

- Plotiau Gwag, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi
- Tir yn union i'r dwyrain o B & M (Homebase gynt), Caergybi
- Tir i'r de o Alpoco.

Cyfarfu Pwyllgor Gwaith y Cyngor ar 31 Mai a phenderfynwyd na ddylid bwrw ymlaen gydag unrhyw un o'r safleoedd uchod ac na ddylid cynnwys yr un ohonynt yn y Cynllun Datblygu Lleol;
Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylid gwneud gwaith pellach i nodi safleoedd amgen i gwrdd â'r angen am le aros dros dro yn ardal Caergybi.

**Ymgynghoriad pellach rhwng 2 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2016 ynghylch dau fan aros dros dro posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal Caergybi.**

Mae swyddogion wedi asesu nifer sylweddol o safleoedd amgen (gweler Atodiad 3) ac wedi cymryd canllawiau Llywodraeth Cymru i ystyriaeth wrth ddatblygu ei fethodoleg i asesu safleoedd addas. Ystyriwyd bod gan y ddau safle a gawsant eu cynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar y potensial i gael eu datblygu fel Mannau Aros Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Rhwng 2 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2016, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ynghylch dau fan aros dros dro posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal Caergybi. Y ddau safle posib oedd :

- Safle 4 - Tir yn hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)
- Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi


‘Roedd dogfen ymgynghori gyda mapiau a holiadur ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn sesiwn galw heibio a gynhaliwyd yn y Clwb Dinasyddion Hŷn yn Ffordd Llundain, Caergybi ar 15 Mehefin 2016 lle cafwyd presenoldeb da. Anfonwyd copïau hefyd at fusnesau, tirfeddianwyr a thrigolion sydd union gyfagos i’r safleoedd. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori hefyd at y Ffederasiwn Busnesau Bach, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Tân Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Adnoddau Naturiol Cymru, a Dŵr Cymru.

Drwy gydol y cyfnod ymgynghori, arddangoswyd gwybodaeth yn amlwg ar wefan y Cyngor a’i gyfrifon facebook a twitter.

**Dadansoddi'r Ymatebion**

Derbyniodd y Cyngor 707 o holiaduron a 21 o lythyrau a negeseuon e-bost ac 1 ddeiseb a lofnodwyd gan 729 o unigolion. ‘Roedd 554 o’r ymatebion hynny ynghylch Safle 4 - tir ar hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland) a 535 o ymatebion ynghylch Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi.

**Safle 4 - Tir ar hen fferm, oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)**
**Crynodeb o'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad**



‘Roedd 486 o'r ymatebwyr o'r farn bod y safle hwn yn anaddas. Nid oedd yr ymatebwyr a oedd o'r farn bod y safle yn addas iawn neu'n dderbyniol yn byw yn agos i'r safle hwn.

Y prif resymau a nodwyd gan drigolion, busnesau a sefydliadau eraill dros wrthwynebu i'r safle hwn oedd

- Yn rhy agos at ysgolion a meithrinfa
- Yn rhy agos at ardaloedd preswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel)
- Ofn cynnydd mewn lefelau troseddu

ac wedyn bryderon ynghylch

- Addasrwydd y ffordd ac effaith mwy o draffig
- Agweddau iechyd a diogelwch megis sbwriel, mwg a fyddai’n effeithio ar yr A55 ac anifeiliaid sy’n crwydro
- Effeithiau amgylcheddol.
- Niweidiol i fusnes a thwristiaeth leol


Mynegodd lleiafrif o’r ymatebwyr bryderon ynghylch materion gan gynnwys costau i'r Cyngor, yr effaith ar werth eiddo, effaith ar ysbryd cymunedol a dim angen i safle arfaethedig fod mor agos at y porthladd.

Dylid cadw mewn cof na fyddai rhai o'r rhesymau a roddwyd dros wrthwynebu yn cael eu hystyried i fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol pe bai cais cynllunio yn cael ei wneud. Er enghraifft, ni fyddai ofnau nad oes tystiolaeth i’w cefnogi ynghylch cynnydd mewn lefelau troseddu na’r effaith ar werth eiddo yn ffactorau y gellid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cais cynllunio.

**Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi. Crynodeb o'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cyflwynwyd deiseb hefyd i'r Cyngor ynghylch Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern. Mae'r ddeiseb wedi cael ei harwyddo gan 729 o unigolion sydd yn cymeradwyo’r datganiad canlynol ar frig y ddeiseb.

" This petition is to oppose the proposed Temporary Stopping Places for Gypsies and Travellers at Site 5 – Land at Tyddyn Lantern Farm, Holyhead. We are starting the petition as we feel this is an unsuitable area due to the large number of families, businesses and houses. We hope that Anglesey Council will use this petition to see how strongly local people feel regarding the situation”.


Site 5 - Land at Tyddyn Lantern Farm, Holyhead.
100%25
80%25
60%25
40%25
20%25
0%25
7.49%25
12.55%25
79.96%25
Very suitable
Acceptable
Not suitable
FusionCharts

‘Roedd 428 o'r ymatebwyr o'r farn bod y safle hwn yn anaddas. Nid oedd y nifer fechan o ymatebwyr a oedd yn ystyried bod y safle yn addas iawn neu'n dderbyniol yn byw yn agos i'r safle.

Y prif resymau a nodwyd gan drigolion, busnesau a sefydliadau eraill dros wrthwynebu i'r safle hwn oedd

- Yn rhy agos at ysgolion a meithrinfa
- Yn rhy agos at ardaloedd preswyl (byddai preswylwyr yn teimlo'n anniogel)

a ddilynwyd gan bryderon ynghylch

- Addasrwydd y ffordd ac effaith mwy o draffig
- Ofn mwy o droseddu
- Effeithiau amgylcheddol negyddol
- Niweidiol i fusnes a thwristiaeth leol

Mynegodd lleiafrif o ymatebwyr bryderon ynghylch materion gan gynnwys y costau i'r Cyngor, yr effaith ar werth eiddo, dim angen i’r safle arfaethedig fod mor agos i’r porthladd.

Dylid cadw mewn cof na fyddai rhai o'r rhesymau a nodwyd dros wrthwynebu yn cael eu hystyried i fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol pe bai cais cynllunio yn cael ei wneud. Er enghraifft, ni fyddai ofnau nad oes tystiolaeth i’w cefnogi ynghylch cynnydd mewn lefelau troseddu na’r effaith ar werth eiddo yn ffactorau y gellid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cais cynllunio.

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gweler Adroddiadau a chofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2016. |

| **C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. |

| **CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori a nhw?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT)** (Gorfodol) | |
| 2 | **Swyddog Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | Mae Adran Eiddo CSYM wedi bod yn ymwneud agos â'r holl broses o nodi safleoedd. |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau lleol** | Mae pob Aelod Lleol wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Heddlu Gogledd Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd<br>Cyngor Tref Caergybi<br>Adrannau CSYM:<br>Adain Priffyrdd<br>Adain Draenio<br>Adran Rheoleiddio (Datblygu Economaidd, Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd) |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | Gweler Atodiad 2 – Ebost gan Heddlu Gogledd Cymru |
| 4 | **Amgylcheddol** | Gweler Atodiad 2 |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Mae'r adroddiad yn cydnabod bod nodi |

| | | |
|---|---|---|
| | | safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn fater lle mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac atal gwahaniaethu, atal aflonyddu ac atal erlid Sipsiwn a Theithwyr sy'n grŵp a ddiogelir o dan y Ddeddf. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | Risgiau o ran oedi gyda mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br>Risg i enw da'r Cyngor os yw'n methu â chydymffurfio â gofynion statudol. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 - Ymatebion gan ymgyngoreion ffurfiol
Atodiad 2
Llythyrau gan:

Meithrinfa Morlo
Canolfan Gymunedol Gwelfor

Dŵr Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Adnoddau Naturiol Cymru
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
Adran Rheoleiddio CSYM
Adain Briffyrdd CSYM
Adain Ddraenio CSYM

Atodiad 3: Y rhestr hir o safleoedd a nodwyd gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn

**G. Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)**

1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.
2. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn, Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Economaidd 02/02/16 .
3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Cwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.
4. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Mehefin 1 - Gorffennaf, Papurau Pwnc 2016.
5. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd - Adroddiadau i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 29/01/2016
6. Adroddiad Pwnc 18A Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd Nodi safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr – diweddariad 2016
7. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Mehefin 2016.
8. Rhestr hir o safleoedd a nodwyd gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn